# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 24 Mehefin 2021**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Pearl Evans

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Dyfrig Jones.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Bleddyn Williams

**2. Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**3. Materion Brys**
Torri gwair mynwent Coetmor – i'w drafod mis nesaf.
Parcio ger Rhes Penrhyn – achosi problemau gwelededd a pherygl pan mae'r ffordd yn brysur.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai 2021, yn ddarostyngedig i newid Eitem 4 – Angen holi **Adra** os oes posib i'r tenantiaid brynu'r eiddo yn y dyfodol.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll. Cyngor Gwynedd am edrych ar wyneb y ffordd pan yn gwneud gwaith ail-wynebu ar y palmentydd.
**5.2** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
**5.3** Arwyddion stryd – Nid yw'n bosib cael arwyddion stryd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi oherwydd nid ydynt wedi eu cofrestru gyda'r Swyddfa Bost. Penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i gael rhai answyddogol. Bydd angen caniatad perchnogion yr adeiladau a prynu arwyddion.
**5.4** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle a'i drafod gyda nhw.

**5.5** Twmpathau ger Llwyn Bedw – wedi cael eu ail-gwneud, ond dal llawer o gwynion eu bod yn rhy uchel. Dal i'w drafod gyda Cyngor Gwynedd.
**5.6** Cae chwarae Rachub – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr arian Adran 106: Rhwymedigaethau Cynllunio ar gyfer caniatad cynllunio Llwyn Bedw.
**5.7** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – yn dilyn cyfarfod ar y safle, Cyngor Gwynedd am osod mwy o rwystrau.

**6. Archwiliad Mewnol 2020-21**
Yr Archwiliad Mewnol wedi ei gwblhau yn drylwyr gan Gyngor Gwynedd. Trafodwyd yr adroddiad a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd. Yn dilyn barn yr Archwilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau a chymryd camau priodol i'w lliniaru. Y Pwyllgor Cyllid i'w drafod yn eu cyfarfod nesaf.

**7. Ffurflen Flynyddol 2020-21**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Is-gadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

**8. Diffibrilwyr Carneddi a Braichmelyn**
Y Cyngor yn awyddus i osod un yn Carneddi, ger Y Sior. Wedi cael caniatad gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd i osod un wrth y lloches bws ar gyffordd Bont Tŵr, ond Cynghorwyr lleol i Braichmelyn am edrych am leoliad addas gan nad yw'n bosib ei osod ble oedd y ciosg. Diffibrilwyr wedi eu harchebu, ac bydd angen i Gyngor Gwynedd osod polion ar eu cyfer.

**9. Maes parcio Gerlan**
Y Cyngor wedi cael yr hawl i fenthyca arian gan y PWLB. Y Cyngor am holi Partneriaeth Ogwen am adroddiad ar sut i symud ymlaen gyda'r cais.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2021'
**10.1** Ebost gan Cyngor Gwynedd - Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) Ardal Arfon. Sylwadau wedi eu hanfon am ardal Rachub.
**10.2** Ebost gan Zurich Insurance – Gwahoddiad adnewyddu ar gyfer 2021-22– penderfynwyd derbyn y telerau am bolisi tair blynedd.
**10.3** E-bost gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun Adnoddau Coedwig Bethesda ac Abergwyngregyn – digwyddiad yn Braichmelyn 01.07.2021. Yr aelodau i archebu lle os oeddent yn dymuno mynychu.
**10.4** E-bost gan Cyngor Tref Nefyn – yn awyddus i gynnal cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn a Polisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cymal 6, Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Y Cyngor yn awyddus i fynychu unrhyw gyfarfod i drafod ymhellach.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C20/0716/13/LL**

| | |
|---|---|
| 1 Lon Sarnau, Bethesda | Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda' |

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0152/13/LL**
4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0805/13/LL**
Tir ger Gwernydd, Gerlan

Cais ar gyfer adeiladu maes parcio
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0087/13/DT**
Ty'n Llan, 17a Pant Glas, Bethesda

Cais i godi estyniad deulawr i ochr yr eiddo.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0083/13/DT**
Craig Ogwen, Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda

Cais ar gyfer codi tŷ gwydr i gefn yr eiddo.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0338/13/LL**
100 Ffordd Carneddi, Carneddi, Bethesda

Estyniad deulawr yn y cefn
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C21/0422/13/DT**
Bryn Tirion, 14 Ffordd y Mynydd, Rachub

Cais ar gyfer dymchwel modurdy unllawr bresennol a chodi adeilad deulawr yn cynnwys modurdy dwbl gyda anecs ar y llawr cyntaf
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0048/13/DT**
31 Erw Las, Bethesda

Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniad deulawr a sengl yn ei le
**Penderfyniad:** Ar y gweill

**C21/0505/13/DT**
1 Glan Ogwen, Bethesda

Cais ar gyfer dymchwel estyniad ochr unllawr a chodi estyniad unllawr yn ei le.
**Penderfyniad:** Ar y gweill

**<u>Ceisiadau</u>**
**C21/0465/13/DT**
90 Ffordd Carneddi, Bethesda

Cais ar gyfer dymchwel porth blaen a chodi estyniad to un codiad yn ei le

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C21/0508/13/DT**
Canolfan Cefnfaes, Bethesda

Newid defnydd o ganolfan gymunedol i ganolfan fentergarwch i gynnwys swyddfeydd, gweithdai, gofodau cyfarfod a 7 byncws a darpariaethau cysylltiedig
**Penderfyniad:** Cefnogi'r datblygiad.

**C21/0505/13/DT**
Tŷ Capel Bethel, Henbarc, Rachub

Newid defnydd y gweithdy a'r storfa i fod yn rhan o'r annedd breswyl presennol
**Penderfyniad:** Dim sylwadau, dim digon o wybodaeth

**12. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Mehefin) | £308.90 |
| CThEM (Mehefin) | £77.20 |
| C Jackson | £2146.00 |
| Ffenestri Sgwar | £400.00 |
| Defib Store Ltd | |